



Rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr – 1 Ebrill 2020



Beth yw'r pwyntiau allweddol?

Bu'n rhaid i reolwyr gofal cartref gofrestru gyda ni ers **2014**

Mae **913** o reolwyr wedi cofrestru, sef cynnydd o gymharu â **773** y llynedd

Dyma'r cynnydd blynyddol mwyaf yn nifer y reolwyr sydd wedi cofrestru

48 yw oedran cyfartalog reolwyr



Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

Mae nifer y rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr wedi cynyddu **52%** ers **2015**

Ni fu newid i'r gymhareb menywod a dynion, sef tua **4:1**

Mae canran y rheolwyr sy'n gweithio yn y trydydd sector wedi cynyddu o **21%** yn **2015** i **33%** eleni

Mae'r ganran sy'n gweithio i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi gostwng o **16%** yn **2015** i **13%** eleni



Faint sydd wedi ymuno â'r Gofrestr a'i gadael?

Ymunodd **236** o reolwyr â'r Gofrestr a gadawodd **96** yn y flwyddyn ddiwethaf

Ni wnaeth **51%** o'r ymadawyr hynny gynnal eu cofrestrriad

Nid oedd **19%** yn gweithio mwyach mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru

Arhosodd **13%** ar y Gofrestr mewn rôl wahanol

Roedd **10%** wedi ymddeol



Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

Mae gan holl reolwyr gofal cartref gymhwyster perthnasol

Mae **51%** yn dal Diploma Lefel 5 cyfredol y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal

Mae gan bob un o'r lleill gymhwyster NVQ Lefel 4 neu gymhwyster cyfwerth derbyniol arall



Ymhle mae rheolwyr yn cael eu cyflogi?

Mae **53%** yn gweithio yn y sector preifat

Mae **33%** yn gweithio yn y trydydd sector

Mae **13%** yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae **24%** o reolwyr wedi bod yn eu rôl bresennol ers mwy na **10** mlynedd

Mae **54%** o reolwyr wedi newid i rôl newydd o fewn y pum mlynedd ddiwethaf



Beth yw proffil rheolwyr?

Roedd **743** o reolwyr yn fenywaidd a **170** yn wrywaidd

Mae **98%** o reolwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu'n wyn Gwyddelig

Mae **74%** o reolwyr dros **40** oed ac mae **46%** ohonynt dros **50** oed

Mae **39%** o reolwyr yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu Gymraeg rhugl

Mae gan **2%** o reolwyr anabledd